# Mae’r Cyngor yn dal i fod yn sefydlog yn ariannol ac yn canolbwyntio ar heriau yn y dyfodol

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi cael ei chynorthwyo gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

7 Mae’r adran hon yn nodi’r effaith y mae COVID-19 wedi’i chael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi cael ei lliniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

8 Canfuom fel a ganlyn:

- mae’r Cyngor wedi rheoli costau COVID-19 ar sail Cyngor cyfan, fel nad yw gwasanaethau unigol mewn sefyllfa lle maent naill ai ‘ar eu hennill’ neu ‘ar eu colled’ yn sylweddol o ganlyniad yn uniongyrchol i effeithiau ariannol COVID-19.
- yn 2020-21, yn wreiddiol, fe wnaeth y Cyngor glustnodi cronfa wrth gefn o £1.6 miliwn o’i adnoddau presennol i gwrdd â chost bosibl COVID-19. Fodd bynnag, nid yw’r Cyngor yn disgwyl defnyddio’r gronfa wrth gefn hon yn 2020-21 am bod Llywodraeth Cymru wedi cwrdd â’r mwyafrif o gostau ychwanegol COVID-19 hyd yma a bod arbedion ychwanegol yr amcangyfrifir eu bod yn werth £1.1 miliwn wedi cael eu cyflawni o ganlyniad i gostau rhedeg is wrth ddarparu rhai gwasanaethau.
- fel a ddangosir yn **Arddangosyn 1**, hyd yma mae’r Cyngor wedi cael cyllid o £12.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau caledi, pwysau Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a cholledion incwm. Amcangyfrifir bod y cyfanswm costau cyn arbedion yn £13.2 miliwn. Er bod cyfraddau casglu’r Dreth Gyngor wedi dioddef yn gynharach yn y flwyddyn ariannol, maent wedi gwella ers hynny ac mae’r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw golledion ar ddiwedd y flwyddyn yn fach iawn.
- cafwyd cyllid ychwanegol hefyd gan Cyllid a Thollau EM, y Bwrdd Iechyd a disgwylir nifer o grantiau amrywiol eraill erbyn diwedd y flwyddyn yn 2020-21.
- fel rhan o’i broses i bennu’r gyllideb ar gyfer 2021-22, mae’r Cyngor wedi cadw cronfa wrth gefn o £1 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi i gwrdd â diffyg posibl mewn cyllid COVID-19 yn y dyfodol. Bydd unrhyw incwm dros ben a geir y tu hwnt i’r hyn y mae ei angen ar gyfer gwariant yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi.
- mae’r Cyngor yn cydnabod y bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith fwy hirdymor ar ei strategaeth ar y cyfan, y ffordd y mae’n darparu gwasanaethau a’i sefyllfa ariannol.

Canfuom fel a ganlyn:

- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) y Cyngor 2021-22 i 2023-24 yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol trwy adnabod heriau ariannol allweddol, bylchau disgwyliedig o ran cyllid ac asesiad o sut i ariannu'r bylchau hyn dros y tair blynedd nesaf.
- mae'r bwlch o ran cyllid a ragamcanir dros y cyfnod o dair blynedd rhwng £11.5 miliwn (yn seiliedig ar dybiaeth y ceir cynnydd blynyddol o 1% ar gyfer Cyllid Allanol Cyfun) neu £14.5 miliwn (yn seiliedig ar dybiaeth na fydd unrhyw gynnydd o gwbl mewn Cyllid Allanol Cyfun) fel a ddangosir yn **Arddangosyn 3**.
- mae'r Cyngor wedi gwneud nifer o dybiaethau eraill wrth adnabod y bwlch o ran cyllid sy'n cael effaith uniongyrchol ar yr amcangyfrifon o'r arbedion sy'n ofynnol bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau ailbrisio'r gyllideb sylfaenol, newidiadau i sylfaen y Dreth Gyngor ac effaith barhaus bosibl Brexit, ond nid ydynt yn cynnwys effaith ariannol bosibl pandemig COVID-19 o 2022-23 ymlaen.
- un o'r prif risgiau ariannol yw gorwariant parhaus yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- mae gan y Cyngor rwydwaith ffyrdd helaeth y mae angen ei gynnal a'i gadw ac mae'r Cyngor yn ymwybodol bod hyn yn bwysau ariannol parhaus.
- mae gan y Cyngor gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer adfywio ac mae'n neilltuo arian i gyflawni'r rhain.
- roedd cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor dan bwysau yn gynnar yn 2020-21 oherwydd COVID-19, ond mae'r rhain wedi gwella tuag at ddiwedd y flwyddyn ac mae'r modd y mae wedi mynd ati'n frwd i gasglu dyledion wedi cyfrannu at hyn.

11 Canfuom fel a ganlyn:

- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Cyngor wedi parhau â'i hanes o beidio â gwneud defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw. Mae gan y Cyngor Bolisi Cronfeydd wrth Gefn ac nid oes ganddo unrhyw gynlluniau i ddefnyddio balansau cronfeydd cyffredinol i ariannu cyllidebau refeniw ac eithrio ar gyfer eitemau untro sy'n eithriadol ac y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth.
- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu'n gyson yn ystod y cyfnod rhwng 2016-17 a 2019-20 o £20.2 miliwn i £27.7 miliwn fel a ddangosir yn **Arddangosyn 4**.
- yn 2019-20, roedd balansau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n 17.8% o gost net gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Mae hyn yn cymharu â'r ffigyrau cyfatebol ar draws cynghorau Cymru o 33.4%, sef yr uchaf, a 4.2%, sef yr isaf. (Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 5**.)
- ac eithrio pwysau COVID-19, mae symudiadau ym malansau cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2020-21 yn gyson fwy neu lai â'r rhai a gynlluniwyd ar y cam cychwynnol wrth bennu cyllideb 2020-21, gyda disgwyliad y bydd balansau'n codi i £28.2 miliwn.
- rhagwelir y bydd ariannu prosiectau'r CATC yn 2021-22 yn lleihau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'u cynllunio £4 miliwn (14%) i £24.2 miliwn.
- mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi'u bwriadu i roi cymorth i ariannu strategaeth gyfalaf hirdymor y Cyngor a blaenoriaethau yn ei gynlluniau economaidd ac addysg.

**Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2019-20 a'r tair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu.

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau [2] | £147.6m | £147.2m | £151.8m | £155.8m |
| Cyfanswm Cronfeydd Wrth | £20.2m | £21.5m | £24.2m | £27.7m |

[2] Y gwerth a ddefnyddiwyd yw cost net gwasanaethau a godwyd ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn unrhyw gost gwasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion. Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon

